

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar nos Fercher, Chwefror 1^{af}, 2017 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	Mrs K. Davies	Mrs Ll. Hindley	R. A. Davies
	Mrs J. Evans	Mrs S.E Thomas	D. Hopkins
	Mrs J. Collins		

Ymddiheuriadau

Cynghorydd	I Rh. Llewelyn
------------	----------------

1331.

Ceisiadau am gymorth ariannol

Bu'r pwyllgor, y unol â Chofnod 693/95, yn ystyried y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol, a chytunwyd **argymell** y canlynol i'r Cyngor:

Ceisiadau cyffredinol, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 137 ac Adran 145

Enw'r Mudiad	Swm a argymhellir
Rhydaman a'r Cylch: Bywyd ar ôl Strôc	£300
Brownis a Geidiau 1 ^{af} Penygroes	£200
Canolfan i'r Byddar, Llanelli	£100
Cylch Meithrin Penygroes	£250
Côr Meibion Llandybïe	£300
Cylch Ty a Fi, Penygroes	£100
Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (Sir Gaerfyrddin)	£100
Eglwys y Plwyf, Saron	£250
Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Canser	£100
Marie Curie yn Sir Gâr	£200
RABI – Cynnal Teuluoedd Amaethyddol	£100
Gofal Canser Tenovus	£100
Cylch Meithrin y Blaenau	£250

Argymhellion eraill:

(i) Calonnau Cymru

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddiwrth Calonnau Cymru, ond gan nad oedd y mudiad wedi cynnwys cyfrifon archwiledig gyda'r cais, **argymhellwyd** y dylid ystyried cymorth ariannol unwaith bod y Cyngor wedi derbyn copi o'u cyfrifon, a bod y mudiad yn ystyried cynnal digwyddiad sgrinio'r galon yn yr ardal.

(ii) Cyngor Ysgol y Blaenau

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddiwrth Gyngor Ysgol y Blaenau, ond gan nad oeddent wedi cynnwys cyfrifon archwiledig gyda'r cais, **argymhellwyd** y dylid ystyried cymorth ariannol unwaith bod copi o'u cyfrifon wedi dod i law.

(iii) Neuadd y Geidiau, Rhydaman

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol a llythyr o gefnogaeth o'r cais am arian grant oddiwrth Neuadd Geidiau Rhydaman. **Argymhellwyd** y dylid anfon llythyr o gefnogaeth.

Ceisiadau oddiwrth neuaddau pentref a ystyriwyd yn unol â darpariaethau y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 19

Neuadd Lesiant Penygroes	£825
Cymdeithas Lesiant Saron	£625

Ceisiadau am arian i gynnal a chadw llefydd chwarae, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 19

Meysydd Chwarae Cymru, Llandybie	£719
----------------------------------	------

Ceisiadau am arian i gynnal a chadw claddfeydd, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 214

Capel y Drindod Cross Hands	£250
Capel yr Annibynwyr, Penygroes	£250

1332.**Datganiadau o Fuddiant**

Roedd Aelodau am ddatgan buddiant yn yr amrywiol fudiadau y maen nhw'n ymwneud â nhw, ac ni wnaethant gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleidleisio ar, y ceisiadau hyn. Llofnodwyd copïau o'r ffurflenni buddiant i'w cadw gan y Clerc. Roedd y datganiadau fel a ganlyn:

Y Cynghorydd R. A. Davies	Un o Ymddiriedolwyr Meysydd Chwarae Cymru, Llandybie.
Y Cynghorydd Mrs K. Davies	Ei thad yw ysgrifennydd Côr Meibion Llandybie.
Y Cynghorydd D. Hopkins	Un o Ymddiriedolwyr ac Is-Gadeirydd Meysydd Chwarae Cymru, Llandybie.
Y Cynghorydd Mrs S. E. Thomas	Llywodraethwraig yn Ysgol Gynradd Sirol y Blaenau, aelod o Eglwys Saron, ac un o Ymddiriedolwyr Cronfa Eglwysi Cymru
Y Cynghorydd Mrs Ll. Hindley	Trysorydd Cylch Ti a Fi Penygroes
Y Cynghorydd Mrs J. Evans	Trysorydd a warden Eglwys Saron

1333.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.10 yh.